OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2555 (Cy.279)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012

Gwnaed - - - -	*6 Hydref 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Hydref 2012*
Yn dod i rym - -	*2 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 2 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal awdurdod lleol" ("*local authority area*") yw'r ardal ddaearyddol honno y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdani;

ystyr "asesiad" ("*assessment*") yw'r asesiad sy'n cael ei wneud gan awdurdod lleol o dan adran 11(1) o'r Mesur;

mae "chwarae" ("*play*") wedi ei ddiffinio yn adran 11(6) o'r Mesur;

mae "digonol" ("*sufficient*") wedi ei ddiffinio yn adran 11(6) o'r Mesur;

ystyr "digwyddiad chwarae" ("*play event*") yw unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn gyhoeddus at ddiben hyrwyddo chwarae;

ystyr "man agored" ("*open space*") yw unrhyw dir sydd wedi ei osod allan fel gardd gyhoeddus, neu sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion adloniant cyhoeddus;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, dyma'r ystodau oedran—

(**1**) 2010 mccc 1.

(a) 3 oed ac yn is;

(b) 4 — 7 oed;

(c) 8 — 12 oed;

(d) 13 — 15 oed;

(e) 16 — 17 oed.

Materion i'w cynnwys yn yr asesiad

3. Rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r materion canlynol wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae o fewn ei ardal awdurdod lleol—

(a) o ran pob ystod oedran, nifer y plant sydd o fewn ei ardal;

(b) anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd o fewn ei ardal;

(c) y mannau lle y gall plant chwarae ynddynt, gan gynnwys—

(i) mannau agored, a

(ii) unrhyw fan arall;

(d) darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth, gan gynnwys—

(i) canolfannau hamdden,

(ii) meysydd chwarae antur,

(iii) cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau,

(iv) clybiau a grwpiau ieuenctid,

(v) darpariaeth symudol, a

(vi) unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer chwarae dan oruchwyliaeth;

(e) p'un a oes tâl yn cael ei godi am ddarpariaeth chwarae ai peidio, a phan fo tâl yn cael ei godi, swm y tâl hwnnw;

(f) y mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at chwarae, gan gynnwys—

(i) cynlluniau gostegu traffig a chynlluniau strydoedd saff,

(ii) llwybrau i gerddwyr,

(iii) llwybrau beicio,

(iv) trafnidiaeth gyhoeddus,

(v) parcio,

(vi) oriau agor y ddarpariaeth chwarae,

(vii) hysbysebu'r ddarpariaeth chwarae,

(viii) unrhyw ddigwyddiadau chwarae;

(g) y gweithlu chwarae—

(i) gweithwyr chwarae,

(ii) gwirfoddolwyr chwarae,

(iii) cyfleoedd hyfforddi i'r gweithlu chwarae,

(iv) lefelau cymwysterau'r gweithlu chwarae;

(h) lefel yr ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad y gymuned, gan gynnwys—

(i) grwpiau ieuenctid,

(ii) cynghorau ysgol,